**Cyllid ar gyfer yr Eisteddfod**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

04 Medi 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 7 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Gynulliad Cenedlaethol Cymru,*

*Gobeithio y gallwch fy helpu.*

1. *Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi faint o gyllid y Llywodraeth (canolog a lleol) a roddir i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghymru.*

2. *Hoffwn wybod maint y grant blynyddol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol a chan yr Awdurdodau Lleol. Rwy'n ymwybodol o'r grant a roddir gan y Cyngor Celfyddydau felly nid oes angen y wybodaeth hon arnaf.*

3. *Os ydych chi'n gwybod, byddwn hefyd yn ddiolchgar o wybod faint o gymorth ariannol anuniongyrchol a roddir (e.e. gan Fwrdd Iechyd neu nawdd Prifysgol) ond rwy'n gwerthfawrogi efallai y bydd yn rhaid i mi gysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff hyn.*

*Yn gywir,*

Gweler yr ymateb isod, wedi'i rannu'n adrannau wedi'u rhifo:

1. Gallaf gadarnhau nad ydym yn cadw'r wybodaeth hon.

   I gael gwybodaeth am y cyllid a roddir i'r Eisteddfod Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, cyfeiriwch eich cais at Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r manylion ar y dudalen hon: https://llyw.cymru/gofyn-am-wybodaeth-gan-lywodraeth-cymru

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

2. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu grant blynyddol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Gallaf gadarnhau nad oes gennym wybodaeth am gyllid a ddarperir i'r Eisteddfod Genedlaethol gan awdurdodau lleol.

   Mae'r Eisteddfod yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gynllunio lleoliadau'r ŵyl dros nifer o flynyddoedd, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol yn y dalgylch am o leiaf ddwy flynedd cyn cynnal unrhyw Eisteddfod.

   Efallai yr hoffech gyfeirio eich cais at bob awdurdod lleol sydd wedi cynnal yr Eisteddfod dros y blynyddoedd diwethaf. Gellir dod o hyd i awdurdodau lleol blaenorol a fu'n cynnal y digwyddiad ar wefan yr Eisteddfod:
   https://eisteddfod.cymru/lleoliadaur-gorffennol-0

3. Gallaf gadarnhau nad ydym yn cadw'r wybodaeth hon. Dylid cyfeirio ceisiadau am wybodaeth a gedwir gan fyrddau iechyd a phrifysgolion atyn nhw.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu’r cyfeiriad post a ganlyn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad post a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF